

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 12 Tachwedd 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Gwasanaeth Gofal Iechyd Llygaid Cymru - Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad

Ddim yn gymwys

I'w weithredu gan:

Pob Optometrydd ag achrediad EHEW

Angen gweithredu erbyn:

Ar unwaith

Anfonwr:

Sarah O'Sullivan-Adams, Pennaeth Polisi Awdioleg ac Opthalmeg

Enw(au) Cyswllt AIGC Llywodraeth Cymru :

Sarah O'Sullivan-Adams, y Gangen Polisi Awdioleg ac Opthalmeg, y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, Rhif ffôn 02920823998

Dogfen(nau) amgaeedig:

Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (AILIC) - Llawlyfr clinigol gyda phrotocolau ar gyfer optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig (YMOwyr).



Dyddiad: 12 Tachwedd 2014
Ein cyf: WHC/007/14

Annwyl Gydweithiwr,

Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru

Yn 2013 cafodd yr Archwiliad Iechyd Llygaid ei ddiwygio ac fe roddwyd strwythur bandio ar waith. Flwyddyn wedyn, cafodd adolygiad o'r gwasanaeth ei lywio gan archwiliad clinigol, data am y gwasanaeth ac ymgynghoriad â darparwyr y gwasanaeth.

Y newid mwyaf i'r gwasanaeth y llynedd oedd cyflwyno Band 2 sy'n galluogi ymarferwyr i gynnal ymchwiliadau/archwiliadau pellach yn sail i atgyfeiriadau pellach at y gwasanaeth llygaid mewn ysbyty neu i atal pobl rhag gorfod cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth hwnnw. Darganfu'r archwiliad fod 81% o gleifion Band 2 yn cael eu rheoli mewn practis ac mae hyn yn dangos gwerth yr elfen ychwanegol hon ar y gwasanaeth.

Dangosodd yr adolygiad hefyd feysydd lle nad oedd y canllawiau neu'r protocolau'n glir a/ neu lle gellid gwella'r gwasanaeth. Felly, mae llawlyfr EHEW V2.2014 diwygiedig wedi cael ei gynhyrchu gan ymgynghori â'r cyrff proffesiynol ac fe gaiff ei anfon at bob ymarferydd EHEW cofrestredig yng Nghymru o 1 Tachwedd 2014. Caiff copi electronig o'r llawlyfr ei anfon allan yr un pryd. Pan gewch y llawlyfr byddwch cystal â'i roi ynghyd â'r atodiadau newydd yn y ffolder EHEW flaenorol. Dylech sicrhau bod yr holl waith papur blaenorol yn cael ei waredu. Mae ffurflenni Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru (WECS) (WECS 1, 2, 3 a 4) heb eu newid a dylid eu cadw.

Byddwch cystal â darllen y llawlyfr newydd yn fanwl iawn. Mae llawer o newidiadau wedi bod ac mae'n bwysig iawn ichi weithio yn unol â'r canllawiau a'r protocolau newydd o 15 Rhagfyr ymlaen. Y prif newidiadau neu'r meysydd yr hoffwn dynnu'ch sylw atynt yw:

- Mae rhai pethau wedi newid o ganllawiau i brotocol. Rhaid i'r elfennau hyn gael eu gwneud er mwyn hawlio taliad ac fe gânt eu harchwilio.
- Mae'r categori hanes teuluol wedi cael ei ddileu o Fand 1. Mae hyn mewn ymateb i'r data sy'n dangos mai niferoedd bach yn unig oedd yn defnyddio'r categori. Yn ogystal, nid oedd mantais amlwg i ganlyniadau iechyd y cyhoedd. Mae'r cleifion hyn yn gymwys am archwiliad GOS. Os bydd angen ymchwiliadau pellach i atal neu i lywio atgyfeiriad yn sgil archwiliad GOS, yna gellid perfformio Band 2.
- At y dyfodol, mae angen i chi sicrhau bod y rheswm dros yr archwiliad EHEW yn cael ei gofnodi'n glir ar y nodiadau.
- Mae rhaid ysgrifennu adroddiad at Feddyg Teulu'r claf yn dilyn pob EHEW.



- Mewn achosion lle na nodir unrhyw batholeg i'w hatgyfeirio, ni fyddai hawliadau'n cael eu caniatáu fel rheol ar gyfer lledu'r canhwyllau e.e. ni chaniateid hawlio band 2 yn unig am fod gan y claf ganhwyllau sydd wedi crebachu. Yn yr un modd, ni fyddai ymchwiliadau nad ydynt yn eglur yng nghanllawiau'r EHEW megis pachymetreg neu OCT yn cael eu hystyried yn rhesymau dros hawlio.
- Dylid cofnodi craffter gweledol (VA) a nodi hefyd a gafodd y canhwyllau eu lledu ar bob cofnod EHEW.
- Mae canllawiau clir am yr hyn y dylai atgyfeiriadau ar gyfer gwahanol gyflyrau'n ei gynnwys.

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn y canllawiau ar gyfer y gwasanaeth neu yn www.eyecare.wales.nhs.uk. Os oes gennych gwestiwn am y gwasanaeth cysylltwch â WECS@cardiff.ac.uk.

Mae'r gwasanaeth yn mynd o nerth i nerth ac mae'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd yn rhoi gwerth mawr arno.

Yn gywir



Dr Barbara Ryan
Chief Optometric Adviser/Prif Gynghorydd Optometrig

Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (AILIC)

**Llawlyfr clinigol gyda phrotocolau ar gyfer optometryddion ac
ymarferwyr meddygol offthalmig (YMOwyr).**

cyhoeddwyd gan GIG Cymru ar gyfer GIG Cymru. Fersiwn 9 – Gorffennaf 2014.

Gwybodaeth am y gwasanaeth Protocolau Canllawiau Clinigol

Cataract

Glawcoma a Gorbwysedd Ocwlwr

Dirywiad Macwlaidd Oedran-gysylltiedig

Toriadau a Datodiadau Retinol

Paratowyd y llawlyfr a'r protocolau hyn ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru, Optometreg Cymru (OC), Pwyllgor Optegol Cymru (POC) ac Arweinydd Clinigol AILIC.

Ni fwriedir i'r llawlyfr hwn gymryd lle barn broffesiynol a chyfrifoldeb yr Optometrydd neu'r Ymarferydd Meddygol Offthalmig ei hunan.

Gellir cael y fersiwn ddiweddaraf o'r llawlyfr a gwybodaeth bellach yn www.eyecare.cymru.nhs.uk

Ar gyfer gwybodaeth bellach am gyrsiau, hyfforddiant ac asesu ar gyfer y gwasanaeth AILIC, ewch i www.wopec.co.uk

Ar gyfer unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch â WECS@cardiff.ac.uk.



**Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru
Eye Health Examination Wales**

MYNEGAI

Rhif tudalen

Gwybodaeth am y gwasanaeth	5
1.0 Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio	5
2.0 Protocol cyffredinol Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru	6
3.0 AILIC - BAND 1 Gwybodaeth Gyffredinol	8
3.1 Protocol Band 1	8
3.1.2 Plygiant	9
3.2 Canllawiau Band 1	9
4.0 Ymchwiliad pellach - AILIC Band 2	10
4.1 Protocolau Band 2	10
4.2 Canllawiau Band 2	10
5.0 Ymchwiliad dilynol – AILIC Band 3	11
5.1 Protocol Band 3	11
5.2 Canllawiau Band 3	11
6.0 Cynnwys yr archwiliadau	12
6.1 AILIC	12
7.0 Y cyfarpar sy'n ofynnol mewn practis	12
8.0 Atgyfeiriadau	13
8.1 Manylion a brys yr atgyfeiriad	13
9.0 Llenwi ffurflenni	14
9.1 Rhan 1. Manylion y claf a datganiad	15
9.2 Rhan 2. Datganiad yr Optometrydd/YMO	15
9.3 Rhan 3. Band 1: AILIC	15
9.4 Band 2: Ymchwiliadau/Archwiliadau pellach	16
9.5 Band 3: AILIC Dilynol	16
9.6 Canllawiau ynghylch gwybodaeth ar gyfer archwiliadau clinigol o'r gwasanaeth	17
9.7 Cymerais y camau canlynol	17
9.8 Llofnodion	17
9.9 Preswyllo yng Nghymru	17
10.0 YR ADRAN CANLLAWIAU CLINIGOL (CYFLYRAU)	19

Atgyfeiriadau glawcoma a gorbwysedd ocwlar	20
1.0 Diffiniadau	
1.1 Glawcoma	20
1.2 Gorbwysedd ocwlar	19
2.0 Asesu	
2.1 Hanes	20
2.2 Symptomau	20
2.3 Archwilio	21
3.0 Rheolaeth a chriteria atgyfeirio	22
Dirywiad macwlaidd oedran-gysylltiedig	24
1.0 Diffiniadau	24
1.1 Dirywiad macwlaidd oedran-gysylltiedig gwlyb	24
1.2 Dirywiad macwlaidd oedran-gysylltiedig sych	24
2.0 Asesu optometrig a rheoli	24
2.1 Newidiadau macwlaidd heb broblem weledol	24
2.2 $VA \geq 6/96$ gyda symptomau neu arwyddion cychwyniad diweddar	25
2.3 $VA \geq 6/96$ yn y naill lygad neu'r llall heb symptomau nac arwyddion cychwyniad diweddar	26
2.4 VA binocwlar $< 6/95$	26
3.0 Atgyfeirio	26
Toriadau a datodiadau retinol	28
1.0 Diffiniadau	
1.1 Toriad retinol	28
1.2 Datodiad retinol	28
2.0 Asesu	28
2.1 Hanes a symptomau	28
2.2 Archwilio	29
3.0 Rheolaeth a chriteria atgyfeirio	
3.1 Symptomau sy'n galw am atgyfeirio o fewn 24 awr	30
3.2 Arwyddion sy'n galw am atgyfeirio o fewn 24 awr	30
3.3 Arwyddion sy'n galw am atgyfeirio cyn gynted a y gellir—yr apwyntiad clinig nesaf sydd ar gael	30
3.4 Arwyddion sy'n galw am ryddhau gyda chyngor SOS	30

4.0	Llythyrau atgyfeirio	30
5.0	Cadw cofnodion	31
	Cataract	32
1.0	Asesu a rheoli cleifion sydd â chataract	32
1.1	Hanes a symptomau	32
1.2	Archwilio	32
1.3	Rheolaeth a chriteria atgyfeirio	32
	Geirfa	34

ATODIAD I	Ffurflen WECS 1	Ffurflen gais
ATODIAD II	Ffurflen WECS 2	Hysbysiad/ Atgyfeiriad i'r meddyg teulu
ATODIAD III	Ffurflen WECS 3	Atgyfeiriad i GLIY
ATODIAD IV	Ffurflen WECS 4	Adroddiad i GSRDC

Gwybodaeth am y Gwasanaeth

Mae Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (AILIC) yn rhan o Wasanaeth Gofal Llygaid Cymru (WECS). Yn ogystal ag AILIC, mae Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (GGGC), a'r Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Diabetig Cymru (GSRDC) hefyd yn rhan o WECS.

Gwasanaeth gofal llygaid estynedig yw AILIC, yn sydd ar gael yn ddi-dâl i gleifion ar yr adeg y'i defnyddir. Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r strwythur sy'n caniatáu i optometryddion neu YMOwyr ddarparu'r gwasanaeth AILIC.

Mae'n bosibl bod llwybrau lleol wedi eu cytuno rhwng Byrddau Iechyd a Phwyllgorau Optometryddion Rhanbarthol/ Cyngorwyr Optometrig, a dylai ymarferwyr fod yn gyfarwydd â'r rhain ac unrhyw brotocolau sy'n codi ohonynt, yn ychwanegol at y llawlyfr hwn.

Rhagwelir y bydd y llawlyfr hwn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd yn unol ag anghenion y gwasanaeth. Anfonir y diweddariadau yn electronig at bob optometrydd ac YMO sy'n darparu'r gwasanaeth.

1.0 Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio

- Rhaid i optometryddion neu YMOwyr gel eu hachredu i ddarparu'r gwasanaeth, a'u hail achredu bob 3 blynedd wedi hynny er mwyn parhau'n ddarparwyr. Darperir yr hyfforddiant, yr achrediadau a'r ail achrediadau gan Ganolfan Addysg Ôl-raddedig Optometreg Cymru (CAOOC) o dan gontract gyda Llywodraeth Cymru.
- Rhaid i bractisau optometreg fod wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaethau AILIC. Mae'r taliadau a wneir i ymarferwyr optometrig ac YMOwyr yn cael eu cydgysylltu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ac yn destun gwirio ôl-dalu (GOD) yn unol â phrotocol a gytunwyd rhwng GIG Cymru a'r corff negodi proffesiynol (Optometreg Cymru).
- Bydd y ffurflen dalu WECS 1 (gweler Atodiad I) yn darparu data ar gyfer gwirio'r taliad a chynnal archwiliadau o'r gwasanaeth. Cedwir y data hyn gan y PCGC mewn system reoli data ddiogel.
- Bydd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a chytunir yn awtomatig i gymryd rhan yn yr archwiliadau hyn fel rhan o'r hyfforddiant a roddir i'r optometrydd neu'r YMO i ddarparu'r gwasanaeth AILIC.
- Rhaid i bractisau sy'n darparu AILIC fod yn alluog i gynnig apwyntiadau i unrhyw un sy'n gymwys i ddefnyddio'r gwasanaeth.
- Mae strwythur o fandiau ffioedd yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth AILIC.

Ymholiadau:

- Ar gyfer ymholiadau ynglŷn â materion clinigol, archwiliadau, cofrestru neu

achredu cysylltwch ag Arweinydd Clinigol AILIC (029 20 876988) neu WECS@cardiff.ac.uk

- Ar gyfer ymholiadau ynglŷn â thâl dylech gysylltu â'ch Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) leol. Ar gyfer De-ddwyrain a Gogledd Cymru cysyllter ag Ophthalmic.SE@cymru.nhs.uk. Ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, cysyllter â Domiciliary.visits@cymru.nhs.uk.

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys protocolau y mae'n rhaid eu bodloni, yn benodol at ddibenion talu.

Cynhwysir canllawiau, y dylid eu dilyn pan fo'n briodol, ar bob achlysur posibl.

Rhaid i bractis fod yn alluog i gynnig apwyntiad i unrhyw un sydd â hawl ganddo i ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r gofyniad hwn yn rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth a rhaid cydymffurfio onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

Er mwyn cael tâl am archwiliad AILIC rhaid bodloni'r amodau canlynol.

2.0 Protocol Cyffredinol ar gyfer AILIC

Cofrestru

1. Rhaid i'r practis lle mae'r AILIC yn digwydd fod wedi ei gofrestru i ddarparu AILIC (gweler Adran 1.0 am fanylion).
2. Rhaid i'r optometrydd neu'r YMO sy'n cyflawni'r archwiliad llygad fod wedi ei achredu i ddarparu AILIC.

Ffurflenni

3. Rhaid cwblhau pob adran o'r ffurflen WECS 1.
4. Rhaid i'r claf lofnodi a dyddio rhan 1 o'r ffurflen WECS 1 fel y cyfarwyddir yn y llawlyfr hwn.
5. Rhaid i'r optometrydd lofnodi a dyddio rhan 2 o'r ffurflen fel y cyfarwyddir yn y llawlyfr hwn. Rhaid i'r contractwr lofnodi a dyddio rhan 2 o'r ffurflen. Os gwnaed yr AILIC gan y contractwr, un llofnod yn unig sydd ei angen ar waelod y ffurflen hon.

Gellir gweld enghreifftiau o'r holl ffurflenni WECS yn yr Atodiadau.

Cardiau Cofnod

6. Rhaid i'r cerdyn cofnod a gedwir mewn practis ddatgan yn eglur y rheswm dros gyflawni'r AILIC.

Atgyfeiriadau/ Adroddiadau

7. Rhaid ysgrifennu adroddiad ar gyfer meddyg teulu'r claf (a anfonir fel rheol o fewn 7 diwrnod) ar ôl pob archwiliad AILIC.
8. Rhaid defnyddio ffurflen WECS 3, neu lythyr practis sy'n cynnwys yr holl fanylion a bennir yn y Nodiadau isod*, ar gyfer pob atgyfeiriad i ysbyty gofal eilaidd yn dilyn AILIC, ac eithrio pan fo templedi atgyfeirio cenedlaethol amgen yn bodoli – e.e. ffurflen Dirywiad Macwlaidd Oedran-gysylltiedig (AMD).
9. Dylid defnyddio naill ai WECS 2 neu'r templed a ddarperir ar gyfer pob adroddiad at feddygon teulu yn dilyn AILIC.

*Nodiadau: Os defnyddir llythyr/ profforma practis yn hytrach na'r ffurflenni WECS, rhaid i'r llythyr/profforma gynnwys y canlynol:

- Logo'r GIG ar frig y llythyr (mae ceisiadau am gael defnyddio'r Logo ar gael gan yr arweinydd clinigol ar gyfer AILIC).
- Y math o ffurflen ydyw; naill ai WECS 2, 3 neu 4.
- Rhaid defnyddio'r un penawdau yn union ar frig y llythyr: Ar gyfer WECS 2 – FFURFLEN GWYBODAETH I FEDDYG TEULU: (NID ar gyfer atgyfeirio i Offthalmoleg). Ar gyfer WECS 3 – Atgyfeiriad: Optometreg i Offthalmoleg
- Rhaid i'r llythyr practis gynnwys yr holl wybodaeth arall a geir yn y ffurflenni WECS 2, 3 a 4, a rhaid llenwi pob un â'r wybodaeth briodol.

Hawliadau

10. Yn dilyn prawf llygaid GOS neu brawf llygaid preifat yn unig y ceir cyflawni AILIC Band 2*.
11. Yn dilyn Band 1 yn unig y ceir cyflawni AILIC Band 3*.
12. Un AILIC Band 2 yn unig y ceir ei hawlio am bob claf am bob blwyddyn*.
13. Un AILIC Band 3 yn unig y ceir ei hawlio am bob claf am bob blwyddyn.
14. Ni cheir hawlio AILIC am ymweliad cartref.

* Oni chytunwyd gyda'ch Bwrdd Iechyd ar lwybrau eraill.

Rhoddir cyngor pellach ynglŷn â llenwi'r ffurflen hawlio WECS 1 yn Adran 9.0.

Cyfarpar

15. Rhaid defnyddio tonometreg gyffwrdd (Goldmann neu Perkins) ar gyfer pob mesuriad o'r Pwysedd Mewnlygadol (IOP), oni fyddai hynny'n peri niwed i'r claf.

3.0 Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru (AILIC) - BAND 1 Gwybodaeth Gyffredinol

Mae archwiliadau AILIC Band 1 yn galluogi cleifion sydd â chyflyrau llygad aciwt, rhai mewn categorïau sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd llygad, neu rai y byddai colli eu golwg yn peri anhawster arbennig iddynt, i gael archwiliad llygad yn ddi-dâl ar yr adeg y'i cynhelir. Y rhestr lawn o'r rhai sy'n gymwys yw:

1. Claf sydd â phroblem llygad sy'n galw am ymchwiliad ar frys, (gan gynnwys hunan-atgyfeiriad neu atgyfeiriad gan ymarferydd gofal iechyd arall).
2. Claf sydd mewn perygl o ddioddef clefyd llygad oherwydd ei grŵp ethnig (Asiaidd neu Ddu).
3. Claf unllygeidiog
4. Claf sydd ag amhariad ar ei glyw
5. Claf sydd â Retinitis Pigmentosa (RP)
6. Claf a atgyfeiriwyd gan weithiwr proffesiynol gofal llygaid arall (e.e. meddyg teulu/ offthalmolegydd ysbyty gofal eilaidd)
7. Pan fo angen ymchwiliadau i gydymffurfio â phrotocolau a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru:
 - 7a. Atgyfeiriad gan GSRDC
 - 7b. Monitro Dirywiad Macwlaidd Oedran-gysylltiedig (AMD)
 - 7c. Cynllun Mân Anhwylderau Fferyllfa

Sylwer nad yw'r canlynol wedi eu cynnwys, ac felly NAD ydynt yn categorïau cymwys:

- Llygad sych cronig
- Defnyddwyr lensys cyffwrdd sy'n gleifion y practis ac sy'n ymgyflwyno gyda llygad coch a/neu ddolurus oherwydd problem sy'n gysylltiedig â phroblem neu batholeg lensys cyffwrdd.
- Contact Lens wearers who receive their contact lens care though the practice and who present with a red and/or sore eye that is a contact lens related problem or pathology.

3.1 Protocol Band 1

Ni cheir gwneud hawliad Band 1 oni fodlonir o leiaf un o'r criteria uchod ac onid yw'r rheswm hwnnw wedi ei dicio a/neu ei arnodi ar y ffurflen WECS 1.

Ynglŷn â phob rheswm ar gyfer Band 1:

1. Ni chaiff ymarferydd gyflwyno hawliad ar y sail hon ac eithrio pan fo claf yn ymgylwyno gyda phroblem llygad neu symptomau y mae angen ymchwilio iddynt ar frys. Dylid datgan yn eglur, ar gerdyn cofnod y claf, y math o symptom neu broblem llygad ac ers pa bryd y dechreuodd. Dylid cynnig apwyntiad i'r claf o fewn 24 awr yn unol â'r protocol hyfforddi ac achredu a gytunwyd.
2. Rhaid i'r claf hunan-achredu drwy dicio'r blwch priodol yn Rhan 1 o'r ffurflen WECS 1, i'r perwyl ei fod naill ai'n Asiaidd/Asiaidd Prydeinig neu'n Ddu /Affricanaidd /Caribiaidd /Du Prydeinig, cyn y ceir cyflwyno hawliad ar sail grŵp ethnig.
3. Ni cheir defnyddio'r categori unllygeidiog ac eithrio ar gyfer y cleifion hynny a fyddai'n gymwys i'w cofrestru fel rhai sydd â Nam ar eu Golwg pe baent yn colli eu golwg yn eu llygad 'da'.
4. Rhaid i'r claf hunan-achredu i'r perwyl fod nam sylweddol ar ei glyw, cyn y caiff ymarferydd gyflwyno hawliad ar y sail honno.
5. Rhaid i glaf fod â diagnosis o retinitis pigmentosa gan offthalmolegydd cyn y ceir gwneud hawliad ar y sail honno.
6. Ceir gwneud atgyfeiriad i'r gwasanaeth AILIC gan feddyg teulu (caiff hyn fod ynghylch problem aciwt neu gronig mewn perthynas â'r llygad), offthalmolegydd neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd arall.
7. Pan fo claf wedi ei atgyfeirio gan GSRDC, rhaid defnyddio ffurflen WECS 4 (gweler Atodiad IV) i adrodd yn ôl wrth GSRDC am y canfyddiadau Ar gyfer monitro AMD sych, gweler yr Adran Canllawiau clinigol ar AMD. Ar gyfer y Gwasanaeth Mân Anhwylderau Fferyllfa dylid cyfeirio at y protocolau a gytunwyd yn lleol.

3.1.2 Plygiant

Pan gyflawnir Archwiliad Band 1 oherwydd problem llygad aciwt, ni fydd angen cyflawn plygiant fel arfer, oni fydd o gymorth i ganfod natur y broblem llygad aciwt (e.e. cur pen neu ddiplopia).

Os gwneir yr archwiliad Band 1 am unrhyw reswm arall, rhaid cyflawni plygiant yn rhan o'r archwiliad, a cheir dyroddi presgripsiwn preifat. Ceir dyroddi taleb GIG (GOS 3W) os yw'r claf yn gymwys. Os dyroddir taleb GOS 3W yn dilyn plygiant, yn rhan o'r Archwiliad Band 1, rhaid ei ddyroddi o'r presgripsiwn preifat (nid o GOS 2W). Gan fod cyflawni plygiant yn ddisgwyliedig, dylid cynnwys holl gydrannau'r prawf llygaid, fel y'i diffinnir yn nhelerau gwasanaethu'r GOS.

3.2 Canllawiau Band 1

Fel arfer, un Band 1 yn unig y gellir ei hawlio ar gyfer claf mewn unrhyw un flwyddyn. Mewn amgylchiadau eithriadol, fodd bynnag, gellir cyflawni AILIC ychwanegol. Mae'r rhagofalon arferol ynglŷn â gwneud penderfyniad o'r fath yn gymwys, a rhaid nodi'r rhesymau perthnasol a'r amgylchiadau yn y cofnodion clinigol. Enghreifftiau o hyn fyddai'r canlynol:

- Claf sydd wedi cael AILIC am resymau ynglŷn â'i grŵp ethnig, ond sy'n dychwelyd yn fuan wedyn ar ôl dioddef problem llygad sy'n gofyn am sylw ar frys. Byddai hawl ganddo i gael AILIC pellach o dan y categori o broblem llygad sy'n galw am sylw ar frys.
- Claf sydd weddi cael AILIC Band 1 ar ei ymweliad cyntaf ar gyfer llygad coch aciwt, ac sy'n dychwelyd ymhen 2 fis ar ôl digwyddiad clinigol anghysylltiedig ynglŷn â fflachiadau a nofion. byddai'r ail ymwelid hefyd yn gymwys am archwiliad Band 1.
- Claf oedd â llygad coch yn ei lygad de ar ei ymweliad cyntaf, ond sy'n dychwelyd yn ddiweddarach gyda symptomau gwahanol a llygad coch yn ei lygad chwith. Ystyrid hyn yn ddau ddigwyddiad clinigol ar wahân, ac felly gellid hawlio Band 1 am y ddau ymweliad.

4.0 Ymchwiliad/ archwiliadau pellach - BAND 2

Mae'r archwiliadau hyn yn galluogi cleifion i gael ymchwiliadau pellach. Ni cheir eu defnyddio ac eithrio i ganfod gwybodaeth bellach, neu er mwyn peidio ag atgyfeirio achos ymlaen i'r gwasanaeth llygaid mewn ysbyty.

4.1 Protocolau Band 2

1. Mae AILIC Band 2 yn dilyn prawf llygaid GOS neu brawf llygaid preifat, yn unig.*
2. Un AILIC Band 2 yn unig y ceir ei hawlio am bob claf am bob blwyddyn.*
3. Ni cheir hawlio Band 2 ar gyfer lledu kannwyll y llygad i gael gwell golwg ar y ffwndws.
4. Er mwyn hawlio Band 2 am ymchwilio i amheuaeth o Glawcoma/ Gorbwysedd Ocular (OHT) rhaid gwneud 2 fesuriad o'r pwysedd mewnlygadol gan ddefnyddio'r dull Goldmann neu Perkins. Os yw'r meysydd gweledol trothwy-gysylltiedig yn annormal, rhaid ail-wneud y mesuriadau cyn atgyfeirio.
5. Rhaid i'r asesiad cyn-driniaethol o glaf sydd â chataract gynnwys archwiliad o'r ffwndws gyda'r gannwyll ar led yn ogystal â chwnsela'r claf (gan gynnwys llenwi holiadur).

* Oni chytunwyd gyda'ch Bwrdd Iechyd ar lwybrau eraill.

4.2 Canllawiau Band 2

Mae'r canllawiau canlynol yn ymdrin ag ymchwiliadau y byddid, neu na fyddid, yn eu caniatáu ar gyfer AILIC:

Yr hyn a fyddai, fel arfer yn ganiatadwy ar gyfer Band 2:

- Plygiant seicloplegig i blentyn.
- Archwiliad maes gweledol trothwy-gysylltiedig o faes eang (e.e. 60 gradd) ar gyfer cur pen nas esboniwyd.
- Mesuriadau o'r pwysedd mewnlygadol (IOP) a'r meysydd gweledol, a wneir ddwywaith, i benderfynu a ddylid atgyfeirio claf ar amheuaeth o glawcoma.
- Cyflyrau macwlaidd pan gynhelir archwiliadau ychwanegol i ganfod natur y broblem a phenderfynu a ddylid atgyfeirio.

Yr hyn na fyddai, fel arfer yn ganiatadwy ar gyfer Band 2:

Mewn achosion pan na ddynodir rywfodd arall y dylid atgyfeirio, **fel arfer ni chaniateid y canlynol:**

- Lledu'r gannwyll i gael gwell golwg ar y ffwndws.
- Tomograffeg Cydlynad Optegol (OCT).
- Tomograffeg Retinol Heidelberg (HRT).
- Pachymetreg.
- Ffotograffiaeth o'r ffwndws.
- Chwistrellu neu osod plygiau i drin llygad sych.
- Goniosgopi.

Sylwer: er nad yw'r rhain yn ganiatadwy ar eu pen eu hunain, gallant fod yn dderbyniol ar gyfer cywreinio atgyfeiriad neu reoli, ochr yn ochr ag ymchwiliadau eraill. Hynny yw, nid yw'r eitemau a restrir yn ganiatadwy fel Band 2 ar eu pen eu hunain, ond gellir eu defnyddio fel ychwanegiad at ymchwiliadau eraill.

Fel arfer, byddai archwiliad Band 2 yn digwydd ar yr un diwrnod â phrawf llygaid GOS neu brawf llygaid preifat, ond gellir ei gynnal ar ddiwrnod gwahanol yn ôl anghenion y claf neu'r gofynion clinigol.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau pan fyddai gofyn i'r claf ddychwelyd:

- Pan fo angen ail-wneud: lledu'r gannwyll a BIO Volk, tonometreg Goldmann/Perkins a phrawf trothwy-gysylltiedig o'r meysydd gweledol ar glaf yr amheuir bod ganddo glawcoma / OHT, ar ôl yr ymweliad cyntaf cyn y gellid hawlio Band 2.
- Plygiant seicloplegig ar blentyn (mae'n bosibl y bydd rhaid gwneud hyn ar ddiwrnod gwahanol)
- Pan ofynnir i glaf ddychwelyd ar gyfer prawf meysydd gweledol trothwy-gysylltiedig oherwydd cur pen nas esboniwyd.

5.0 Ymchwiliad dilynol AILIC – Band 3

Mae archwiliad Band 3 yn fodd i ddilyn achos claf ar ôl ei apwyntiad dechreuol am AILIC Band 1. Trefnir yr apwyntiad ar gyfer diwrnod gwahanol, ac fel rheol bydd yn apwyntiad dilynol byrdymor.

Ceir defnyddio'r archwiliadau dilynol yn ôl disgrisiwn yr optometrydd neu'r YMO i gynnwys unrhyw weithdrefnau y tybiant sy'n angenrheidiol yn glinigol.

5.1 Protocol Band 3

1. Mae Band 3 yn dilyn Band 1, yn unig *.
2. Un AILIC Band 3 yn unig y ceir ei hawlio am bob claf am bob blwyddyn.

* Oni chytunwyd gyda'ch Bwrdd Iechyd ar lwybrau eraill.

5.2 Canllawiau Band 3

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o AILIC yn y categori o glaf sy'n dioddef problem llygad sy'n galw am ymchwiliad ar frys (Band 1) a hwyrach apwyntiad dilynol (Band 3) yn ddiweddarach:

- Adolygu claf nad yw ei symptomau o fflachiadau a nofion wedi eu datrys
- Ailasesu claf sydd â ceratitis ymylol
- Ailasesu claf sydd â chrafiad ar y gornbilen
- Ailasesu claf sydd â chorffyn estron
- Ailasesu claf sydd â llygad coch nad yw'n gwella
- Dilyniant mewn achos o namau ar y gornbilen, nad yw eu tarddiad yn hysbys.

6.0 Cynnwys yr archwiliadau

6.1 AILIC

Pan fo claf yn ymgyflwyno gyda phroblem llygad sy'n galw am ymchwiliad ar frys, rhaidd i lefel yr archwilio fod yn briodol o ystyried y rheswm am yr atgyfeiriad, a bydd y gweithdrefnau yn fater i ddisgrisiwn yr optometrydd neu'r YMO. Sylwer bod rhaid defnyddio tonomedrau Goldmann neu Perkins bob amser i fesur y pwysedd mewnlygadol.

Rhaidd i'r optometrydd neu'r YMO fod yn alluog i gynnig AILIC ar y diwrnod y gofynnir amdani neu o fewn 24 awr ar ôl gwneud y cais gan y claf neu'r meddyg teulu os oes gan y claf broblemau llygad sy'n mynnu sylw ar frys.

Pan fo'r claf yn gymwys ar gyfer AILIC trwy fod mewn un o'r categorïau 'mewn perygl' neu 'byddai colli ei olwg yn peri anhawster arbennig', neu oherwydd ei atgyfeirio gan weithiwr proffesiynol gofal llygad arall (e.e. meddyg teulu/ meddyg mewn ysbyty gofal eilaidd/ optometrydd arall), yna, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gweithdrefnau canlynol yn orfodol mewn AILIC:

- Plygiant (gweler 3.1.7)
- Mesuriad craffter gweledol
- Archwiliad o'r segment blaen gyda lamp hollt
- Asesiad o ongl y siambr flaen
- tonometreg cyffwrdd gan ddefnyddio tonomedr Goldmann neu Perkins
- Archwiliad o'r ffwndws gyda'r gannwyll ar led gan ddefnyddio lamp hollt a lens Volk (oni ceir golwg ragorol heb ledu'r gannwyll, ac os felly, rhaid nodi hynny ar y cerdyn cofnod)
- Archwiliad maes gweledol trothwy-gysylltiedig, y gellir cael allbrint meintiadwy ohono
- Gweithdrefnau eraill yn ôl disgrisiwn yr optometrydd neu'r YMO

Os oes cyfiawnhad rhesymol a dilys dros hepgor gweithdrefn, rhaid nodi hynny ar gerdyn cofnod y claf yn y practis cyn y gellir hawlio AILIC.

Er enghraifft

- Claf sydd â lens gyda chlip wedi ei mewnlannu ar yr iris ac sy'n atal y gannwyll rhag lledu
- Claf sy'n cael ei fonitro ar gyfer AMD cymedrol, pan nad yw archwilio'r maes gweledol yn glinigol angenrheidiol.

Os cynhwysir plygiant gyda'r bwriad o ddyroddi presgripsiwn, byddai'r GOS yn ystyried y digwyddiad yn brawf llygaid, ac felly dylid cynnwys pob un o gydrannau angenrheidiol prawf llygaid.

7.0 Y cyfarpar sy'n ofynnol mewn practis

Dylai'r cyfarpar gynnwys o leiaf y canlynol:

- Lamp hollt
- Lens Volk neu gyffelyb ar gyfer Offthalmosgopi Anuniongyrchol Binocwlar (BIO)
- Tonomedr cyffwrdd (Goldmann neu Perkins)
- Cyfarpar maes gweledol awtomataidd ar gyfer archwiliadau trothwy-gysylltiedig, gyda chyfleuster i blotio meysydd a gwneud allbrintiadau
- Offer i dynnu blew amrant
- Cyfarpar i dynnu corffyn estron
- Offthalmosgop Uniongyrchol
- Siartiau Amsler
- Cyffuriau diagnostig
- Retinosgop
- Cyfarpar profi golwg sy'n addas ar gyfer profion ar blant

8.0 Atgyfeiriadau

Fel rheol dylai pob atgyfeiriad nodi'r wybodaeth ganlynol:

1. Yr hanes a'r symptomau perthnasol
2. Iechyd cyffredinol perthnasol
3. Meddyginiaethau (y dosau a'r adegau y'u cymerwyd, os yw'n hysbys)
4. Golwg neu'r craffterau gweledol
5. Arwyddion arwyddocaol a ganfuwyd
6. Dynodiad bod canfyddiadau eraill yn normal
7. Diagnosis y cyfeiriwyd ato neu a roddwyd
8. Y camau gweithredu sy'n ofynnol
9. Brys yr atgyfeiriad

8.1 Manylion a brys yr atgyfeiriadau

Dylai atgyfeiriadau ymlaen ar gyfer amheuaeth o glawcoma / OHT nodi'r canlynol:

1. Disgrifiad o'r disg optig, gan gynnwys y gymhareb C/D.
2. Y pwysedd mewnlygadol (IOP), gan gynnwys yr amser o'r dydd, a fesurwyd gan ddefnyddio tonometr GAT/Perkins.
3. Plot o'r maes gweledol canolog trothwy-gysylltiedig oddi ar berimedr awtomataidd sydd â chyfleuster i gynhyrchu allbrint (e.e. Humphrey.)
4. Asesiad lamp hollt o ran flaen y llygad.
5. Asesiad o ongl y siambr flaen (e.e. Van Herick).

Dylai llythyrau atgyfeirio ar gyfer cleifion sydd ag AMD gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

1. Craffterau gweledol.
2. Datganiad eglur o'r rheswm dros atgyfeirio.
3. Disgrifiad cryno o unrhyw hanes a symptomau perthnasol gan gynnwys amser eu dechreuad.
4. Disgrifiad o'r macwla gan nodi presenoldeb:
 - a *Drusen* macwlaidd
 - b Newidiadau yn yr epitheliwm pigment retinol (EPR) (gor-/ hypo-bigmentiad)
 - c Tewychiad y retina (oedema ac archwysyadau)
 - d Arwyddion o bilen neofasgwlaidd is-retinol
 - e Hylif is-EPR neu is-retinol
 - f Gwaedlifau is-EPR, is-retinol, mewnretinol a chyn-retinol

Yn achos cleifion a atgyfeirir oherwydd cataract, rhaid nodi'r canlynol yn y llythyr atgyfeirio at yr offthalmolegydd:

- Dynodiad eglur o'r rheswm dros atgyfeirio, fel teitl i'r atgyfeiriad
- Bod y claf yn fodlon ystyried triniaeth lawfeddygol
- Y craffter gweledol (VA) presennol a'r VA blaenorol (gan gynnwys dyddiad y VA blaenorol)
- Y craffter gweledol twll pin, os yw'n briodol
- Cadarnhad mai'r gataract yw prif achos y golled golwg
- Hysbysiad ynghylch unrhyw batholeg ocwlar arall sy'n cydfodoli
- Cadarnhad y bydd y gataract yn amharu ar ddull o fyw a/neu ansawdd bywyd y claf

- Y llygad yr atgyfeirir am driniaeth lawfeddygol
- Unrhyw hanes blaenorol o driniaeth lawfeddygol a gyfer cataract neu driniaeth lawfeddygol plygiannol
- Rhestr o unrhyw feddyginiaethau a gymerir gan y claf
- Dylid anfon copi o'r holiadur (gweler Atodiad II) ynghyd â'r atgyfeiriad.
- Presenoldeb neu absenoldeb AMD

Dylid cyflenwi gwybodaeth berthnasol arall pan fo angen (e.e. prawf gorchudd a symudoldeb mewn atgyfeiriad ar gyfer golwg binocwlar). Dylid cynnwys yr hanes teuluol perthnasol bob amser pan fo'n gymwys. Ynglŷn â chyflyrau penodol, cyfeirir at yr adran canllawiau clinigol. Os yw'r atgyfeiriad i'r meddyg teulu, nid oes angen prescripsiwn sbectol.

Dylid anfon atgyfeiriadau yn uniongyrchol at y person proffesiynol mwyaf priodol.

Dylai atgyfeiriadau at offthalmolegwyr gael eu hanfon yn uniongyrchol, ac **nid** trwy'r meddyg teulu.

9.0 Llenwi ffurflenni

Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen WECS 1 yn cael ei defnyddio at ddibenion archwiliad clinigol o'r gwasanaeth.

Cyflawnir gwiriadau dilysu ar ôl gwneud taliadau er mwyn sicrhau y dilynir protocolau a chanllawiau'r llawlyfr AILIC.

Trwy lofnodi'r ffurflen WECS 1 rydych yn dynodi eich bod yn deall ac yn derbyn y gallech fod yn agored i'ch erlyn, a/neu y gellir dwyn achos sifil yn eich erbyn, os byddwch yn celu gwybodaeth neu'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.

Rydych yn cadarnhau bod hawl gennych i gyflawni archwiliad llygad AILIC ac yn cydsynio i ddatgelu gwybodaeth berthnasol at y diben o wirio hynny; cynllunio a gweinyddu'r gwasanaeth; ac mewn perthynas ag atal a chanfod twyll. Rydych hefyd yn cytuno i ad-dalu cost y gwasanaeth os canfyddir yn ddiweddarach nad oes hawl gennych i'w gael.

Dylech lofnodi a dyddio'r ffurflenni hynny, yn unig, sy'n ymwneud ag archwiliadau yr ydych wedi eu darparu. Dylech eu llofnodi ar yr adeg y byddwch yn ymdrin â'r claf. Peidiwch byth â llofnodi ffurflenni WECS gwag. Os digwydd iddynt gael eu cyflwyno yn dwyllodrus yn ddiweddarach, a hwythau'n dwyn eich llofnod chi, gallech gael eich dal yn gyfrifol a hwyrach eich cyhuddo o dwyll. Mae hwn yn fater o bwys arbennig i ymarferwyr sy'n gweithio fel locum tenentes.

Sylwch ar y **protocolau** canlynol ynglŷn â llenwi ffurflenni:

1. Rhaid llenwi pob adran o'r ffurflen WECS 1.
2. Rhaid i'r claf lofnodi a dyddio rhan 1 o'r ffurflen WECS 1 fel y'i cyfarwyddir yn y llawlyfr hwn.

3. Rhaid i'r optometrydd lofnodi a dyddio rhan 2 o'r ffurflen fel y'i cyfarwyddir yn y llawlyfr hwn. Rhaid i'r contractwr lofnodi a dyddio rhan 2 o'r ffurflen. Os cyflawnwyd yr AILIC gan y contractwr, un llofnod yn unig sydd ei angen ar waelod y ffurflen WECS 1.

9.1 Rhan 1. – Manylion a Datganiad y Claf

Caiff y claf ei hunan, yr ymarferydd neu aelod o staff y practis nodi enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r claf ac enw a chyfeiriad ei feddyg teulu ar y ffurflen.

Rhaid i'r claf ei hunan neu'i warcheidwad (nid yr optometrydd neu YMO) nodi ei grŵp ethnig ar y ffurflen. Mae angen yr wybodaeth am ethnigrwydd i alluogi'r optometrydd i benderfynu a yw'r claf mewn perygl o glefyd llygad oherwydd ei ethnigrwydd (gweler 9.3 isod). Defnyddir yr wybodaeth hefyd er mwyn canfod pa grwpiau ethnig sy'n defnyddio'r gwasanaeth AILIC.

Wedi i'r cleifion eu hunain ddynodi eu cefndir ethnig, dylent lofnodi a dyddio Rhan 1 o'r ffurflen WECS 1, cyn yr archwiliad llygaid.

9.2 Rhan 2. –Datganiad yr Optometrydd/ YMO

Yn Rhan 2 o'r ffurflen WECS 1 gofynnir i'r optometrydd neu YMO ddatgan y rheswm dros gynnal yr archwiliad a'r dyddiad y cynhaliwyd yr archwiliad.

9.3 Band 1: Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (AILIC):

Bod gan y claf broblem llygad aciwt

Yr unig adeg y caiff ymarferydd gyflwyno hawliad ar y sail hon yw pan fo claf yn ymgyflwyno gyda phroblem neu symptomau llygad sy'n galw am ymchwiliad ar frys. Dylid nodi'n eglur ar gerdyn cofnod y claf y math o symptom neu broblem llygad a'r cyfnod o amser a aeth heibio ers dechreuad y symptom neu'r broblem. Dylid cynnig apwyntiad i'r claf o fewn 24 awr. Mae hyn yn unol â'r hyfforddiant, yr achredu a'r protocolau a gytunwyd.

Bod y claf yn unllygeidiog

Mae'r categori unllygeidiog ar gyfer y cleifion hynny a fyddai'n gymwys i gofrestru fel person â Nam ar y Golwg pe digwyddai iddynt golli eu llygad 'da'.

Bod y claf â nam ar ei glyw

Rhaid i glaf hunanardystio bod ganddo nam sylweddol ar y clyw cyn y ceir gwneud hawliad ar y sail hon.

Bod gan y claf retinitis pigmentosa

Rhaid i glaf fod â diagnosis o retinitis pigmentosa, a wnaed gan offthalmolegydd, cyn y ceir gwneud hawliad ar y sail hon.

Bod y claf wedi ei atgyfeirio gan feddyg

Un rhyw glaf a atgyfeiriwyd ar gais meddyg teulu (gall hyn fod ynghylch problem aciwt neu gronig mewn perthynas â'r llygad), offthalmolegydd, fferylllydd neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd arall.

Bod y claf mewn perygl o gael clefyd llygad oherwydd ei gefndir ethnig

Mae ymchwil epidemiolegol wedi dangos bod y risg o diabetes mellitus a glawcoma yn uwch i gleifion sydd â'u cefndir ethnig yn Nwyrain, De-ddwyrain neu Dde Asia neu sydd o gefndir Du/ Affricanaidd/ Caribiaidd o gymharu â phobl o gefndir ethnig Gwyn neu grwpiau ethnig eraill, gan gynnwys rhai o ethnigrwydd cymysg. Felly, mae cleifion sydd wedi cadarnhau eu bod yn perthyn i'r grwpiau ethnig hyn (a hefyd, oherwydd y cysylltiad, rhai Asiaidd Prydeinig neu Ddu Prydeinig), gan fod y risg o glefyd llygad sy'n peryglu'r golwg yn uwch, yn gymwys i gael AILIC Band 1.

Rhaid i'r claf huanardystio drwy dicio'r blwch priodol yn Rhan 1 o'r ffurflen WECS 1 i ddynodi eu bod naill ai'n Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig neu'n Ddu/ Affricanaidd/ Caribiaidd/ Du Prydeinig cyn y ceir gwneud hawliad ar y sail hon. Mewn achos pan nad oes blwch ar hyn o bryd ar gyfer grwpiau ethnig yn Ne, De-ddwyrain neu Ddwyrain Asia, dylid ticio'r blwch ethnigrwydd 'arall' ac arnodi'r grŵp ethnig priodol.

Bod angen archwilio'r claf er mwyn cydymffurfio â'r protocolau/ canllawiau Llywodraeth Cymru a gytunwyd

Bydd unrhyw glaf, sydd â phroblem llygad nad yw'n gysylltiedig â diabetes ac a ganfuwyd yn ystod sgrinio gan GSRDC, yn cael ei atgyfeirio at optometrydd AILIC achrededig. dylai hyn gael ei arnodi fel 'DRSSW' ar y ffurflen WECS 1 yn yr adran ar gyfer pennu'r math o atgyfeiriad. Dylid cwblhau adroddiad i GSRDC ar ffurflen WECS 4 a'i anfon at GSRDC o fewn 7 diwrnod.

Caniateir monitro unrhyw glaf sydd â Dirywiad Macwlaidd Sych neu Ddirywiad Macwlaidd Gwlyb anhriniadwy yn flynyddol fel AILIC Band 1, oherwydd y risg o newidiadau AMD Gwlyb pellach. Dylid arnodi hyn fel 'AMD' ar y ffurflen WECS 1 yn yr adran ar gyfer pennu'r math o atgyfeiriad.

Dylai gweld unrhyw glaf a atgyfeirir o Fferyllfa Leol drwy'r Gwasanaeth Mân Anhwylderau yn unol â pha bynnag brotocol a gytunwyd.

9.4 Band 2: Ymchwiliadau/ Archwiliadau pellach

Mae Band 2 yn galluogi'r optometrydd neu'r YMO i oleuo ei atgyfeiriad ymhellach, ymchwilio i ganfyddiadau clinigol, neu benderfynu ar y math o reolaeth, yn dilyn prawf golwg GOS neu brawf golwg preifat yn unig.

Rhaid peidio â defnyddio'r categori hwn yn dilyn archwiliad AILIC Band 1.

9.5 Band 3: AILIC Dilynol

Ar ôl AILIC Band 1, mae'n bosibl y bydd angen i'r optometrydd neu YMO weld y claf drachefn ar achlysur arall (nid ar yr un diwrnod) er mwyn sicrhau bod y claf yn cael y rheolaeth glinigol fwyaf priodol.

Ceir defnyddio AILIC Band 3 yn ôl disgresiwn yr optometrydd neu'r YMO er mwyn cynnwys unrhyw weithdrefnau y tybia sy'n angenrheidiol yn glinigol.

Un hawliad am AILIC Band 3 dilynol y ceir ei gyflwyno am bob claf mewn unrhyw un flwyddyn galendr.

Rhaid nodi dyddiad yr archwiliad AILIC Band 3 ar y ffurflen.

9.6 Canllawiau ynghylch gwybodaeth glinigol ar gyfer archwiliad o'r gwasanaeth

Rhaid i optometryddion neu YMOwyr sicrhau eu bod wedi rhoi o leiaf un tic ym mhob un o'r adrannau ar gefn y ffurflen WECS 1. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer archwiliad clinigol o'r gwasanaeth. Os na chaiff yr adrannau hyn eu cwblhau, gellir atal y taliad tra cynhelir ymchwiliad. I hwyluso'r archwiliad clinigol ticiwch, os gwelwch yn dda, bob dim sy'n berthnasol i'r symptomau cyn archwilio'r claf a/neu ganfyddiadau eich archwiliad. Mae'n bosibl y bydd angen ticio nifer o'r blychau.

9.7 Cymerais y camau canlynol

Diben yr adran hon yw pennu'r modd y rheolir y claf ar ôl yr archwiliad AILIC. Sylwer bod rhaid rhoi gwybod i feddyg teulu'r claf am bob archwiliad AILIC (Band 1, 2 a 3) ac y dylai'r adroddiad i'r meddyg teulu gael ei gwblhau a'i anfon at y meddyg teulu o fewn 7 diwrnod.

9.8 Llofnodion

Dylai'r optometrydd neu'r YMO a wnaeth yr archwiliad AILIC lofnodi i ddynodi ei fod wedi gwneud archwiliad, gan nodi'r dyddiad y'i gwnaed a'i rif ar y Rhestr Offthalmig neu'r Rhestr Offthalmig Atodol.

Dylai'r contractwr, neu ei lofnodwr awdurdodedig ar ei ran, lofnodi a dyddio'r adran hawlio. Os gwnaed yr AILIC gan y contractwr, y contractwr yn unig ddylai lofnodi'r adran hawlio.

9.9 Preswyllo yng Nghymru

Cewch gynnig AILIC Band 1 i unrhyw berson, nad yw'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, sydd â symptomau neu broblem llygad sy'n galw am sylw ar frys, na ellir ei ohirio nes bo'r person hwnnw'n dychwelyd adref (yn yr un modd â phan fo claf mewn argyfwng iechyd yn ymweld â meddygfa meddyg teulu fel preswyllydd dros dro). Mater i'ch disgresiwn proffesiynol chi yw penderfynu a oes angen gwneud AILIC ar unwaith ar gyfer y symptomau neu'r broblem llygad ym mhob achos unigol.

Dirprwyo

Ceir dirprwyo tasgau, ond rhaid eu goruchwyllo (h.y. rhaid i optometrydd fod yn bresennol ar y safle ac ar gael pe bai unrhyw broblem yn codi). Mae dirprwyo yn gymwys o ran chyflawni'r dasg (megis profi'r maes gweledol) yn unig, ac nid dehongli'r canlyniadau. Mae canllawiau Coleg yr Optometryddion yn datgan bod

dyletswydd ar optometrydd i sicrhau bod y claf yn cael yr un safon o ofal, pa un a ddirprwyir unrhyw dasg ai peidio, a bodloni ei hunan ynghylch cymhwysedd ac addasrwydd y person y dirprwyir y dasg iddo. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeirier at Ganllawiau'r Coleg yn

www.college-optometryddion.org/en/professionalstandards/Ethics_Guidance/recent.cfm

Pan fo optometrydd cyn-cofrestru yn cyflawni'r archwiliad cyntaf o gleifion sy'n gymwys i gael archwiliad AILIC, rhaid i'r prif arolygwr fod yn bresennol ar y safle a gwirio pob agwedd ar yr archwiliad a'r canfyddiadau yn bersonol er mwyn gallu hawlio ffi am archwiliad AILIC. Bob tro mewn achos o lygad coch, byddai disgwyl i'r arolygydd wneud archwiliad lamp hollt o'r segment blaen. Mewn pob achos o fflachiadau a nofion byddai disgwyl i'r arolygydd wirio'r retina a'r hylif gwydrog blaen.

Yr Adran Canllawiau Clinigol

Glawcoma a Gorbwysedd Ocwlar
dirywiad Macwlaidd Oedran-gysylltiedig (AMD)
Toriadau a Datodiadau retinol
Cataract

Glawcoma a Gorbwysedd Ocwlar

Asesu a rheoli cleifion sydd â glawcoma, yr amheuir o glawcoma, neu sydd â gorbwysedd ocwlar (OHT).

1.0 Diffiniadau

1.1 Glawcoma

Niwropatheg optig a nodweddir gan golled gynyddol o feinwe'r ymyl niwro-retinol, y gellir ei arafu neu'i atal gan ostyngiad yn y pwysedd mewnlygadol (IOP). O dan ganllawiau cyfredol y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), offthalmolegol ymgynghorol yn unig a gaiff roi diagnosis priodol o glawcoma.

1.2 Gorbwysedd ocwlar (OHT)

Pwysedd mewnlygadol uchel (mwy na 21 mm Hg), sy'n gyson neu'n digwydd yn fynych, yn absenoldeb unrhyw arwyddion clinigol o ddifrod i'r nerf optig neu ddiffyg yn y maes gweledol.

2.0 Asesu

2.1 Hanes

Yn ychwanegol at hanes arferol a symptomau, dylid canfod y canlynol:

Mae'r canfyddiadau hanesyddol a ganlyn yn ffactorau risg ar gyfer glawcoma:

- Oedran – Mae amllder achosion o glawcoma ongl agored yn uwch mewn pobl hŷn ac yn cynyddu'n ddramatig ar ôl 75 mlwydd oed. Mae'r risg o glawcoma ongl gaeedig hefyd yn cynyddu gydag oedran.
- Hil – Du, Asiaidd Dwyreiniol (glawcoma tyndra normal), Asiaidd (ongl gaeedig)
- Hanes teuluol – perthynas gradd gyntaf. Yn enwedig siblingiaid (ongl agored)
- Gwall plygiannol – myopia (ongl agored), hypermetropia (ongl gaeedig)
- Iechyd cyffredinol – anhwylderau fasosbastig, e.e. meigrin neu Syndrom Raynaud (ongl agored)
- Rhyw – Mae'r risg o glawcoma ongl gaeedig yn uwch i fenywod

2.2 Symptomau

Mae glawcoma ongl agored yn glefyd llechwraidd sy'n cynyddu'n araf, ac yn y rhan fwyaf o gleifion, ni fydd symptomau'n ymddangos tan yn ddiweddar yng nghwrs y clefyd, pan fyddant weithiau'n sôn am daro yn erbyn pethau, yn enwedig yn ystod y nos, neu am wrthrychau symudol yn diflannu o'u golwg am ennyd.

Rhaid archwilio pob claf rhag ofn ei fod mewn perygl o gael Glawcoma Ongl Gaeedig Sylfaenol (PACG) drwy edrych ar yr ongl flaen yn null Van Herick a neu Redman-Smith a/neu goniosgopi.

Gall cleifion PACG ddangos symptomau aciwt, diflanedig neu ddim symptomau o gwbl. Pan fônt yn bresennol, gall y symptomau gynnwys:

- Cur talcen neu gur dwys o amgylch un twll llygad, yn enwedig mewn golau gwan (yn ffisiolegol oherwydd ymledu'r gannwyll) neu wrth deimlo cyffro neu ofn (ymlediad seicolegol y canhwyllau)
- Eurgylchoedd o amgylch ffynonellau goleuni neu "enfysau" o amgylch tarddleodd pwynt
- Cyfog
- Golwg aneglur

2.3 Yr archwiliad

Dulliau tonometrig

Ar gyfer mesur IOP, tonometreg gwastatu Goldmann (GAT) neu Perkins a ystyrir y fwyaf cywir gan NICE. Dylid gwneud mesuriad GAT/Perkins ar ddau achlysur gwahanol cyn atgyfeirio unrhyw achos ymlaen.

Dylai pob tonomedr fod mewn cyflwr gweithredol llawn a chywir – dylid gwirio graddnodiad offer GAT a Perkins bob 4 wythnos i sicrhau eu cywirdeb. Mae'n arferiad da cadw cofnod o'r gwiriadau hynny.

Archwiliadau maes gweledol

Gellir gwella sensitifrwydd a phenodoldeb y profion maes gweledol ar gyfer canfod glawcoma trwy ail gynnal prawf nifer o weithiau. Dylai archwiliadau maes gweledol gael eu cynnal ar ddau achlysur gwahanol cyn atgyfeirio achos ymlaen, ac eithrio pan fo'r prawf maes gweledol cyntaf yn normal (ac os felly, un prawf maes gweledol yn unig sydd ei angen).

Mae archwiliad uwchdrothwyol trothwy-gysylltiedig o'r maes gweledol yn addas at y diben o atgyfeirio, ar yr amod y gellir cael allbrint ohono.

Y segment blaen ac asesiad Van Herick

Mae asesiad o'r segment blaen, gan gynnwys asesiad Van Herick o ongl y siambr flaen yn hanfodol wrth gynnal profion am glawcoma. Heb asesiad o ongl y siambr flaen, gellir methu â sylwi ar gyflyrau a all achosi glawcoma eilaidd, megis gwasgariad pigment neu newidiadau digennol.

Asesiad o ben y nerf optig a'r ardal o amgylch

Golwg tri-dimensiwn ar y disg optig sydd orau wrth asesu adeiledd 3-D megis pen y disg optig. Fel arfer, bydd angen lledu'r gannwyll i gael golwg eglur ar y disg optig. Dylid defnyddio lens anuniongyrchol binocwlar megis Volk neu gyffelyb, er enghraifft Digital Max Field, Super 66 neu 60D.

Ym marn NICE mae'r canlynol yn ddynodyddion cryf o ddifrod glawcomataidd:
Nodweddion sy'n awgrymu'n gryf ddifrod i'r nerf optig:

- Teneuo'r ymyl niwro-retinol, mewn mannau neu'n gyffredinol
- Rhiciau yn yr ymyl niwro-retinol
- Gwaedlifau ym mhen y nerf optig heb unrhyw achos eilaidd amlwg (e.e. diabetes)
- Tystiolaeth o golled meinwe yn yr haen ffibrau nerf (nid yw'n weladwy bob amser)
- Cymhareb cwpan/disg fertigol >0.85 (llai pan fo'r disg optig yn fach)

Nodweddion sy'n awgrymu difrod posibl i'r nerf optig:

- Anghymesuredd cymhareb cwpan/disg (CD) >0.2 rhwng y ddau lygad
- Cymhareb CD > 0.6 yn y naill lygad neu'r llall
- Cwpanu trwynol
- Atroffi peripapilaidd
- Teneuo yn yr ymyl niwro-retinol gydag ymyrraeth posibl â'r patrwm 'Isaf – Uchaf – Trwynol – Arleisiol' ('*Inferior – Superior – Nasal – Temporal (ISNT)*')
- Cwpan ddofn gyda lamina cribrosa amlwg (arwydd meddal)
- Bidogi'r pibellau gwaed ym mhen y nerf optig (arwydd meddal)

3.0 Rheolaeth a chriteria atgyfeirio

Dylid atgyfeirio cleifion pan fo'r optometrydd neu'r YMO yn canfod un neu ragor o'r canlynol:

1. Arwyddion disg optig sy'n gyson â glawcoma (gweler uchod).
2. IOP >21 mmHg yn y naill lygad neu'r llall (ar ôl ail fesur gyda GAT/ Perkins ar ddau achlysur gwahanol). NB: Pan fo claf dros 80 mlwydd oed gydag IOP <26 mmHg a'r canfyddiadau fel arall yn normal; a phan fo claf yn 65 a throsodd gydag IOP <25 mmHg a'r canfyddiadau fel arall yn normal, mae'r canllawiau a ddyroddwyd yn awgrymu y gall yr optometrydd neu'r YMO ystyried peidio ag atgyfeirio'r cleifion hynny, gan fod y risg y collir cyfran o'u maes gweledol cyn diwedd eu hoes yn isel
(<http://www.collegeoptometrists.org/en/knowledgecentre/news/index.cfm/Glaucoma%20guideline%20guidance>)
3. Diffyg maes gweledol sy'n gyson â glawcoma yn y naill lygad na'r llall (ar ôl ailbrofi ar ddau achlysur gwahanol).
4. Ongl siambr flaen gul mewn asesiad Van Herik, sy'n gyson â risg sylweddol o glawcoma ongl gaeedig yn y dyfodol.
5. cyflyrau sy'n gysylltiedig yn aml â glawcoma (e.e. syndrom gwasgaru pigment neu ffug-ddigennu).

Dylai atgyfeiriadau ymlaen ar gyfer glawcoma / gorbwysedd ocwlar nodi'r canlynol:

1. Disgrifiad o'r disg optig gan gynnwys y gymhareb C/D
2. Y pwysedd mewnlygadol (IOP), gan gynnwys yr amser o'r dydd, a fesurwyd gan ddefnyddio tonometr GAT/ Perkins
3. Plot trothwy-gysylltiedig o'r maes gweledol canolog oddi ar berimedr awtomataidd sydd â chyfleuster i gynhyrchu allbrint (e.e. Humphrey)
4. Asesiad lamp hollt o flaen y llygad

5. Asesiad o ongl y siambr flaen (e.e. Van Herick)

Dirywiad Macwlaidd Oedran-gysylltiedig (AMD)

1.0 Diffiniadau

Mae'r termau canlyno yn bwysig yn y testun hwn:

1.1 Dirywiad Macwlaidd Oedran-gysylltiedig Gwlyb

Cyflwr a achosir gan dyfiant pibellau gwaed annormal o dan y retina. Mae'r symptomau yn ymddangos yn sydyn ac yn cynyddu dros gyfnod o ddiwrnodau neu wythnosau, gyda'r claf yn cwyno am metamorffopsia (aflunio) yn y maes canolog a/neu golli golwg canolog. Yr arwyddion pwysicaf yw hylif is-retinol a gwaedlif.

1.2 Dirywiad Macwlaidd Oedran-gysylltiedig Sych

Cyflwr a achosir gan gynhyrchion gwastraff sy'n cronni o dan yr epitheliwm pigment retinol. Mae'r symptomau yn datblygu yn raddol ac yn cynyddu dros gyfnod o fisoedd neu flynyddoedd. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn rhydd o symptomau, ond ymhen amser gallant gwyno ynghylch anhawster i ddarllen a golwg gwael mewn golau gwan. Yr arwyddion pwysicaf yw drusen, atroffi'r epitheliwm pigment a chlympiau o bigment (y cyfeirir atynt fel newidiadau pigmentol).

2.0 Asesu optometrig a rheoli

Yn yr adran hon rhoddir crynodeb o'r mathau o archwiliad, cyfansoddiad yr asesiadau optometrig a'r protocolau rheoli ar gyfer y gwahanol fathau o gleifion gyda dirywiad macwlaidd.

2.1 Newidiadau macwlaidd heb broblem weledol

Os yw claf dros 55 mlwydd oed, a chanddo newidiadau macwlaidd heb unrhyw broblemau gweledol, dylid ei archwilio gan ddefnyddio prawf golwg GOS neu brawf golwg preifat ynghyd â dilyniant rheolaidd a dylid rhoi cyngor priodol iddo.

1. Dylid cofnodi'r arwyddion macwlaidd mewn diagram.
2. Dylid ei adalw am brawf golwg preifat neu GOS mewn un flwyddyn (gan ddefnyddio'r cod 2.0 pan fo'n ofynnol).
3. Dylid hysbysu'r claf o'r canfyddiadau, esbonio sut y dylai fonitro'i olwg a'i gynghori i ddychwelyd yn brydlon os yw'n sylwi ar unrhyw newid.
4. Cynghori'r claf ynglŷn â manteision diet iach; ac os yw'n ysmygu, esbonio'r risg o ddatblygu dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â hynny.

2.2 $VA \geq 6/96$ gyda symptomau neu arwyddion cychwynnol diweddar

Yn achos claf sydd â chraffter gweledol of 6/96 neu well yn y llygad yr effeithir arni a cholled golwg canolog neu aflunio a gychwynnodd yn ddiweddar, dylid ei asesu cyn gynted ag y bo modd.

Gellir gwneud archwiliad AILIC (Band 1) i wahaniaethu rhwng dirywiad macwlaidd triniadwy ac anhriniadwy a gychwynnodd yn ddiweddar. Neu, os nad oedd y symptomau neu'r arwyddion yn amlwg cyn gwneud prawf golwg GOS neu brawf golwg preifat, gellir defnyddio Archwiliad Pellach(AILIC Band 2) i wneud ymchwiliadau pellach er mwyn penderfynu ynglŷn â rheolaeth.

Dylai'r asesu a'r rheoli gynnwys y canlynol:

1. Y symptomau a'r hanes

Mae'n bwysig gwybod y canlynol:

- Symptomau – cyfnod parhad newidiadau gweledol, disgrifiad o'r newidiadau gweledol (colled golwg canolog ynteu aflunio), pa lygad, dechreuad y newidiadau gweledol (sydyn ynteu graddol)
- Hanes ocwlar- optometrigr, offthalmolegol, golwg gwan
- Iechyd cyffredinol- ysmegu (cyfredol, cyn-ysmygwr, heb ysmegu erioed), meddyginiaethau e.e. deilliadau clorocwin
- Hanes ocwlar y teulu o ran AMD

2. Archwiliad (o'r ddau lygad)

Dylai cleifion gael archwiliad llawn, sy'n cynnwys:

- Y craffter gweledol monocwlar cywiredig gorau (pell ac agos)
- Plygiant
- Ymateb y canhwylau i oleuni
- Archwiliad o'r ffwndws drwy gannwyll ymledol gan ddefnyddio offthalmosgopi anuniongyrchol binocwlar gyda lamp hollt a lens Volk neu gyffelyb, gan roi disgrifiad o'r macwla, a nodi presenoldeb neu absenoldeb y canlynol:
 - Drusen macwlaidd
 - Newidiadau yn yr epitheliwm pigment (gor-/ hypo-bigmentiad)
 - Tewychiad y retina (oedema ac archwysladau)
 - Arwyddion o bilen neofasgwlaidd is-retinol
 - Hylif is-EPR neu is-retinol
 - Gwaedlifau is-EPR, is-retinol, mewnetinol a chyn-retinol

3. Rheolaeth:

Rhaid i ymarferwyr benderfynu a yw'r claf yn ymgwyflwyno gyda Dirywiad Macwlaidd Gwlyb y gellir o bosibl ei drin, Dirywiad Macwlaidd Sych, Dirywiad Macwlaidd Gwlyb na ellir ei drin, ynteu rhyw batholeg arall.

1. Dirywiad Macwlaidd Gwlyb y gellir o bosibl ei drin – atgyfeirier ar frys ar y teleffon a/neu drwy ffacs ar yr un diwrnod (gweler y llwybrau atgyfeirio isod)

2. Dirywiad Macwlaidd Sych neu Ddirywiad Macwlaidd Gwlyb na ellir ei drin

Gwybodaeth

- Rhoi gwybod i'r claf ynglŷn â dirywiad macwlaidd
- Rhoi gwybod i'r claf os yw safon ei olwg y tu allan i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer gyrru

Atgyfeirio

- Os effeithiwyd ar y ddau lygad, ei atgyfeirio i Wasanaeth golwg Gwan Cymru (GGGC).
- Os yw'n gymwys, cynghori'r claf ynglŷn â phroses a manteision cofrestru a chynnig ei atgyfeirio ar gyfer hynny.
- Os ydych yn pryderu y gallai'r claf achosi perygl iddo'i hunan neu eraill, ei atgyfeirio ar frys i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fel arall, bydd GGGC yn trefnu atgyfeiriad o'r fath.

Cyngor

- Esbonio wrth y claf sut y dylai fonitro ar gyfer unrhyw ostyngiad neu afluniad golwg a'i gynghori i ddychwelyd yn ddi-oed os yw'n sylwi ar unrhyw newid
- Cynghori ynghylch manteision diet iach ym mhob achos, a'r canfyddiad y gall atchwanegiadau maethol atal dirywiad pellach mewn rhai achosion
- Os yw'r claf yn ysmegu, ei gynghori i roi'r gorau i'r arferiad, a rhoi manylion iddo am rwydweithiau cymorth lleol i'w helpu i wneud hynny. Mae rhwydwaith o'r fath ar wefan Dim Smygu Cymru yn (<http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=754>)

Adalw

- Adalw'r claf ymhen un flwyddyn am archwiliad AILIC (Band 1).

3. Dylid rheoli patholeg arall yn unol â'r protocolau a/neu'r canllawiau lleol a chenedlaethol a gytunwyd.

2.3 VA $\geq$ 6/96 yn y naill lygad neu'r llall pan nad oes symptomau nac arwyddion wedi dechrau yn ddiweddar

Mae unrhyw glaf sydd â chraffter gweledol o 6/96 neu wel yn y llygad yr effeithir arno, ac sydd â dirywiad Macwlaidd na ellir ei drin, yn wynebu risg uwch o ddatblygu Dirywiad Macwlaidd Gwlyb triniadwy, ac felly dylid ei fonitro'n fanwl.

Dylid gwneud archwiliad AILIC (Band 1) yn flynyddol er mwyn sicrhau nad oes arwyddion o glefyd triniadwy; a dylid rheoli achosion o'r fath yn y modd a amlinellir yn 2.2 ar gyfer rhai sydd â diagnosis o Ddirywiad Macwlaidd Sych.

2.4 VA Binocwlar < 6/96

O dan brotocolau cyfredol y GIG, ni chynigir triniaeth i gleifion sydd yn y grŵp hwn. Felly, dylid eu monitro gan ddefnyddio'r system GOS, er mwyn sicrhau y canfyddir unrhyw batholeg ocwlar arall cyn gynted ag y bo modd, a bod y cleifion yn cael y cymorth adsefydlu sydd ei angen.

Yr un yw'r dull rheoli yn ei hanfod â'r dull a amlinellir yn 2.2 ar gyfer rhai sydd â diagnosis o Ddirywiad Macwlaidd Sych. Fodd bynnag, dylid eu hadalw gan ddefnyddio'r ysbeidiau a argymhellir ar gyfer GOS. Argymhellir eu hatgyfeirio i GGGC.

3.0 Atgyfeirio

1. Atgyfeirio ar frys Ddirywiad Macwlaidd Gwlyb y gellir o bosibl ei drin – Dylid atgyfeirio cleifion sydd â Dirywiad Macwlaidd Gwlyb y gellir o bosibl ei drin ar yr un diwrnod dros y teleffon a/neu drwy ffacs (yn ôl arfer y ganolfan).
2. Atgyfeirio yn y modd arferol Ddirywiad Macwlaidd na ellir ei drin – Dylai cleifion sydd â Dirywiad Macwlaidd na ellir ei drin ac sy'n gofyn am farn offthalmolegol gael eu cyfeirio i'r Gwasanaeth Llygaid Ysbyty o dan y drefn arferol. Dylid nodi hynny yn eglur yn yr atgyfeiriad.
3. Atgyfeirio ar gyfer cofrestru - Dylai cleifion sy'n gymwys i'w cofrestru neu newid eu statws cofrestredig gael eu cyfeirio fel mater o'r drefn arferol at Offthalmolegydd Ymgynghorol yn y Gwasanaeth Llygaid Ysbyty lleol yn unol â'r drefn arferol
4. Atgyfeirio am Asesiad Golwg Gwan – Dylid eu cyfeirio yn gyntaf oll at GGGC cymunedol. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer y gwasanaethau ar y wefan www.eyecare.cymru.nhs.uk ac yn cael eu diwedddaru'n rheolaidd
5. Atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol – Dylai unrhyw un sy'n achosi risg iddo'i hun neu eraill gael ei atgyfeirio ar frys i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer y timau gwasanaethau cymdeithasol ar y wefan www.eyecare.cymru.nhs.uk ac yn cael eu diwedddaru'n rheolaidd. Bydd cymorth adsefydlu rheolaidd yn cael ei drefnu gan y gwasanaeth golwg gwan.

Dylai llythyrau atgyfeirio gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

1. Craffterau gweledol
2. Datganiad eglur o'r rheswm dros atgyfeirio
3. Disgrifiad cryno o unrhyw hanes a symptomau perthnasol, gan gynnwys eu dechreuad
4. Disgrifiad o'r macwla gan nodi presenoldeb neu absenoldeb y canlynol:
 - a Drusen macwlaidd
 - b Newidiadau yn yr epitheliwm pigment (gor-/ hypo- bigmentiad)
 - c Tewychiad y retina (oedema ac archwysyadau)
 - d Arwyddion o bilen neofasgwlaidd is-retinol
 - e Hylif is-EPR neu is-retinol
 - f Gwaedlifau is-EPR, is-retinol, mewnetinol a chyn-retinol

Toriadau a Datodiadau Retinol

Asesu a rheoli cleifion sydd â thoriad neu ddatodiad retinol, neu yr amheuir bod ganddynt doriad neu ddatodiad retinol.

1.0 Diffiniadau

1.1 Toriad retinol

Gall hyn olygu rhwyg, twll neu opercwlwm retinol.

1.2 Datodiad retinol

Gall hyn olygu unrhyw fath o ddatodiad retinol, gan gynnwys datodiad rhegmatogenaidd (a achosir gan doriad retinol), tyniadol neu archwysol.

2.0 Asesu

2.1 Hanes a symptomau

Mae disgrifiad llawn a thrwyadl o'r hanes a'r symptomau yn hanfodol. Yn ychwanegol at yr hanes a symptomau arferol, rhaid rhoi sylw manwl hefyd i'r materion canlynol:

1. Hanes

- Oedran (mae cleifion dros 50 mlwydd oed yn fwy tebygol o ddatblygu toriadau)
- Myopia (dros -3D)
- Hanes teuluol o doriad neu ddatodiad retinol
- Hanes ocwlar blaenorol o doriad neu ddatodiad
- Clefyd systemig (e.e. diabetes, syndrom Marfans)
- Hanes o drawma, llawfeddygaeth neu lid diweddar

2. Symptomau

- Colled golwg neu aflunio (llen / cysgod / mantell/ gorchudd)
- Nofion
- Fflachiadau

Os yw nofion ymhlith y symptomau dylid gofyn y cwestiynau ychwanegol hyn:

- A yw'r nofion wedi dechrau yn ddiweddar?
- Sut maen nhw'n edrych?
- Faint ohonyn nhw sydd yna?
- Ym mha lygad y byddwch chi'n eu gweld nhw?
- Oes yna unrhyw fflachiadau?

Os yw fflachiadau ymhlith y symptomau dylid gofyn y cwestiynau ychwanegol hyn:

- A ellwch chi ddisgrifio'r fflachiadau?
- Am ba hyd y maen nhw'n para?
- Ar ba adegau y byddwch chi'n sylwi arnyn nhw?

Yn achos symptomau o gwmwl, llen neu orchudd dros y golwg dylid gofyn y cwestiynau ychwanegol hyn:

- Ym Mhle yn y maes gweledol y mae'r ymyrraeth?
- A yw'n llonydd ynteu'n symud?
- Ym mha lygad?
- A yw'n ymddangos ei fod yn gwaethygu?

Symptomau sy'n peri llai o bryder:

- Nofion hirdymor a/neu fflachiadau sydd wedi parhau am >2 fis

2.2 Archwilio

Dylai pob claf sy'n ymgwyflwyno am AILIC gyda symptomau sy'n dynodi'r posibilrwydd o ddatodiad retinol gael yr archwiliadau canlynol (yn ychwanegol at ba bynnag archwiliadau eraill y tybia'r optometrydd neu'r YMO eu bod yn angenrheidiol):

1. Profion ar ymateb y canhwylau i oleuni, gan gynnwys y prawf golau siglog ar gyfer Diffyg Canhwylol Afferol Cymharol (RAPD), cyn lledu'r canhwylau
2. Cofnodi'r craffter gweledol a'i gymharu â'r mesuriadau blaenorol
3. Tonometreg gyffwrdd gan ddefnyddio Goldmann/ Perkins a chan nodi unrhyw wahaniaeth mewn IOP rhwng y llygaid (IOP is yn y llygad yr effeithir arni)
4. Biomicrosgopi lamp hollt o'r segmentau blaen ac ôl, gan nodi:
 - a Celloedd pigment yn yr hylif gwydrog blaen, 'llwch baco' (arwydd Shafer), yn enwedig yn absenoldeb unrhyw lawfeddygaeth fewnlygadol ddiweddar
 - b Gwaedlif yn y deunydd gwydrog
 - c Celloedd yn y siambr flaen (ymateb wfeitig ysgafn yn y blaen)
5. Archwiliad o'r ffwndws gyda'r gannwyll ar led gan ddefnyddio offthalmosgopi anuniongyrchol binocwlar gyda lamp hollt a lens Volk neu gyffelyb, (lens Digital Wide Field, Superfield neu SuperVitreofundus® fyddai orau) gan ofyn i'r claf edrych i'r 8 cyfeiriad syllu cardinal a rhoi sylw arbennig i'r cwadrant arleisiol uchaf (oherwydd mai yno y mae 60% o doriadau yn digwydd) a chan nodi:
 - a Statws y retina berifferol, gan gynnwys presenoldeb rhwygiadau, tyllau, datodiadau, opercwla neu ddirywiad ar ffurf dellt
 - b Presenoldeb syneresis neu ddatodiad yr hylif gwydrog ôl (PVD)
 - c A yw'r macwla yn y datodiad (h.y. a yw'r datodiad yn ymwneud â'r macwla ai peidio)
6. Archwiliad o'r maes gweledol yn ôl disgrisiwn yr optometrydd neu'r YMO

3.0 Rheolaeth a chriteria atgyfeirio

Gall y trefniadau mewn ysbytai lleol amrywio ar gyfer ymwneud â phroblemau retinol. Dylid bod yn gyfarwydd â'r trefniadau lleol gan y gallent effeithio ar y modd y rheolir y

cleifion. Hwyrach y bydd angen galwad teleffon i gael gwybod i ba ysbyty i anfon y claf.

3.1 Symptomau sy'n galw am atgyfeirio ar frys o fewn 24 awr

- Cynnydd sydyn yn nifer y nofion, y claf yn sôn am “nifer fawr”, “gormod i'w cyfrif” neu “gawod neu gwmwl sydyn o nofion” – Mae hyn yn awgrymu bod celloedd gwaed, celloedd pigment neu ronynnau pigment (o'r epitheliwm pigment retinol) yn bresennol yn yr hylif gwydrog. NB Dylai fod arwyddion o doriad neu ddatodiad retinol yn bresennol
- Cwmwl, llen neu orchudd dros y golwg – Mae hyn yn awgrymu datodiad retinol neu waedlif yn yr hylif gwydrog– dylai fod arwyddion o doriad neu ddatodiad retinol yn bresennol

3.2 Arwyddion sy'n galw am atgyfeirio o fewn 24 awr

- Datodiad retinol ynghyd â golwg da – Macwla yn ei le
- Gwaedlif yn yr hylif gwydrog neu waedlif rhag-retinol
- Pigment 'llwch baco' yn yr hylif gwydrog blaen
- Rhwyg / twll retinol ynghyd â symptomau

3.3 Arwyddion sy'n galw am atgyfeirio i'r clinig nesaf sydd ar gael yn y GLIY

- Datodiad retinol ynghyd â golwg gwael – Macwla i ffwrdd
- Rhwyg / twll retinol heb symptomau
- Dirywiad ar ffurf dellt gyda symptomau o fflachiadau a/neu nofion diweddar

3.4 Arwyddion sy'n galw am ryddhau gyda chyngor ynghylch beth i'w wneud os bydd gan y claf symptomau datodiad retinol (y cleifion i gael cyngor ar lafar ynghyd â thaflen ysgrifenedig*).

- PVD neu PVD rhannol heb yr arwyddion a'r symptomau a restrir yn 3.1, 3.2 neu 3.3
- Arwyddion o ddirywiad ar ffurf dellt heb y symptomau a restrir yn 3.1, 3.2 or 3.3

4.0 Llythyrau atgyfeirio

Yn achos cleifion a atgyfeirir am doriad neu ddatodiad retinol, rhaid nodi'r canlynol yn y llythyr atgyfeirio at yr offthalmolegydd. Dylid teipio'r llythyr os oes modd, a gellir ei ffacsio neu ei anfon gyda'r claf mewn achos brys.

- Dynodiad eglur o'r rheswm dros atgyfeirio, fel teitl i'r atgyfeiriad, e.e rhwyg retinol ym mherifferi arleisiol uchaf y llygad de
- Disgrifiad byr o unrhyw hanes / symptomau perthnasol eraill

- Lluniad neu ddisgrifiad o leoliad unrhyw doriad/ datodiad / clwt o ddirywiad ar ffurf dellt, ynghyd â'r disg a macwla i ddynodi graddfa
- Brys yr atgyfeiriad
- Pa un a yw'r macwla yn ei le neu i ffwrdd (h.y. a yw'r parth lle mae'r macwla wedi ymddatod) – mae hyn yn dylanwadu ar y brys i atgyfeirio; gweler 3.2 a 3.3 uchod

5.0 Cadw cofnodion

- Atgoffeir optometryddion ac YMOwyr i gadw cofnodion llawn a manwl gywir o'u holl ymwneud â chleifion. Mae hyn yn cynnwys unrhyw sgysiau â chlaf ar y teleffon (gan yr optometrydd neu YMO neu aelod arall o'r staff) yn ogystal ag yn eu hystafell ymgynghori.
- Rhaid cofnodi'n ofalus bob cyngor a roddir i'r claf, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a roddir.
- *Mae taflenni ar gyfer cleifion ynglŷn â symptomau o fflachiadau a nofion ar gael yn adran yr aelodau ar wefan Coleg yr Optometryddion <http://www.college-optometryddion.org/en/knowledge-centre/publication/patient-leaflets/download.cfm> neu o wefan Cymdeithas yr Optometryddion (AOP) <http://www.aop.org.uk/search?q=retinal+detachment>
- Dylid cofnodi'r canfyddiadau negyddol yn ogystal â'r positif (e.e. 'ni sylwyd ar unrhyw rwyg neu doriad retinol').

Cataract

Asesu a rheoli cleifion sydd â chataract.

1.0 Asesu a rheoli cleifion sydd â chataract

Gellir cynnal yr asesiad hwn fel Archwiliad Ymchwil Pellach (AILIC Band 2) yn dilyn prawf golwg GOS neu brawf golwg preifat.

1.1 Hanes a symptomau

Mae'n bwysig cael sicrwydd ynglŷn â'r canlynol:

- Y math o ddirywiad golwg, pa un a yw'n effeithio ar olwg pellter, golwg agos, ynteu'r ddau
- Am ba hyn y bu'r golwg yn dirywio (ni ddylai fod wedi dechrau'n sydyn)
- A yw'r dirywiad golwg yn effeithio ar dasgau beunyddiol, yn enwedig ynglŷn â gyrru

1.2 Archwilio

Dylai cleifion y canfyddir bod ganddynt gataractau sylweddol gael yr archwiliadau canlynol cyn eu cyfeirio i'r GLIY (yn ychwanegol at ba bynnag archwiliadau eraill y tybia'r optometrydd neu'r YMO eu bod yn angenrheidiol):

- Craffter gweledol – Ei gofnodi a'i gymharu â chofnodion blaenorol os ydynt ar gael
- Craffter gweledol twll pin
- Tonometreg gyffwrdd – gan ddefnyddio Goldmann neu Perkins
- Biomicrosgopi lamp hollt o'r segmentau blaen ac ôl trwy gannwyll ymledol gan nodi'r math o gataract a'r lleoliad
- Archwiliad o'r ffwndws trwy gannwyll ymledol gydag offthalmosgopi anuniongyrchol binocwlar lamp hollt gan ddefnyddio lens Volk neu gyffelyb (60D, Super 66 neu Digital High Mag fyddai orau) gan asesu statws y macwla yn ofalus (os oes AMD yn bresennol, yna rhaid dilyn y protocol AMD)

1.3 Rheolaeth a chriteria atgyfeirio

Os canfyddir cataract dylid trafod hynny gyda'r claf. Os nad yw'r gataract yn achosi unrhyw broblemau sylweddol i'r claf o ran ei olwg na'i ddull o fyw, yna gellir monitro'r claf yn briodol. Os hoffai'r claf ystyried llawfeddygaeth, dylid rhoi holiadur iddo i'w lenwi, ynghyd â thaflen o wybodaeth am lawdriniaethau cataract. Ar ôl llenwi'r holiadur, rhaid i'r optometrydd neu'r YMO dreulio amser yn esbonio wrth y claf y buddion a'r risg sy'n gysylltiedig â'r driniaeth, a thrafod unrhyw bwyntiau a godir gan y claf ynglŷn â'r holiadur; gellir gwneud hyn yn ystod ymweliad pellach os oes angen. Mae'n bosibl y bydd ar y claf angen amser i feddwl ymhellach cyn dynodi parodrwydd i fynd ymlaen â'r atgyfeiriad.

Y llythyr atgyfeirio

Yn achos cleifion a atgyfeirir ynglŷn â chataract rhaid nodi'r canlynol yn y llythyr atgyfeirio at yr offthalmolegydd:

- Dynodiad eglur o'r rheswm dros atgyfeirio, fel teitl i'r atgyfeiriad
- Bod y claf yn fodlon ystyried llawfeddygaeth
- Y craffter gweledol presennol a'r hyn ydoedd yn flaenorol (gan gynnwys dyddiad y VA blaenorol)
- Y craffter gweledol twll pin, os yw'n briodol
- Cadarnhad mai'r gataract yw prif achos y golled golwg
- Hysbysiad ynghylch unrhyw batholeg ocwlar sy'n cydfodoli
- Cadarnhad bod y gataract yn amharu ar ddull o fyw a/neu ansawdd bywyd y claf
- Y llygad a atgyfeirir am lawdriniaeth
- hanes blaenorol o llawfeddygaeth cataract neu llawfeddygaeth blygiannol
- Rhestr o unrhyw feddyginiaethau a gymerir gan y claf
- Dylid anfon copi o'r holiadur gyda'r atgyfeiriad.
- Presenoldeb neu absenoldeb AMD

GEIRFA

Archwiliad clinigol o'r gwasanaeth (*Clinical audit*)

Mae archwiliad clinigol o'r gwasanaeth yn ymwneud â gwella ansawdd y gofal i gleifion trwy graffu ar yr ymarfer cyfredol a'i addasu pan fo angen.

Arweinydd clinigol (*Clinic lead*)

Person dynodedig sy'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaeth clinigol, gan sicrhau bod ansawdd y gofal yn da ac y cynhelir a hyrwyddir yr arferion gorau.

Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (AILIC) (*Eye Health Examination Wales (EHEW)*)

Mae AILIC yn disodli'r ddau wasanaeth blaenorol, PEARS a WEHEW. Mae'n galluogi cleifion gyda phroblemau llygaid sy'n dechrau'n sydyn, pobl mewn categorïau sydd dan risg o ddatblygu clefyd llygaid, a rhai a fyddai mewn anhawster arbennig pe baent yn colli eu golwg, i gael archwiliad llygaid yn ddi-dâl gan optometrydd achrededig yn y gymuned.

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (*General Ophthalmic Services (GOS)*)

Y ddarpariaeth o brofion golwg pan yw'n glinigol angenrheidiol i gleifion cymwys, gan optometryddion neu ymarferwyr meddygol offthalmig, gan gynnwys darparu talebion optegol i gleifion cymwys i'w cynorthwyo i brynu sbectol neu lensys cyffwrdd.

GIG Cymru (*NHS Wales*)

Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru: *NHS Wales* yw system gofal iechyd Cymru, a gyllid yn gyhoeddus ac sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu gwasanaethau brys ac amrediad o wasanaethau gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gwasanaethau gofal trydyddol.

Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) (*NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP)*)

Mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn gorff unswydd a sefydlwyd i rannu safonau gweithredu cyffredin yn unol â'r arferion gorau. Gan ei bod yn ddigon mawr gall y Partneriaeth fanteisio i'r eithaf ar ddarbodion graddfa ac ar ei phŵer fel prynwr. Mae'n arddel ethos rhagorol o ofalu am ei chwsmeriaid ac o ganolbwyntio ar ansawdd ei gwasanaeth. Mae'n cynorthwyo'r Byrddau Iechyd statudol a'r Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ac yn darparu cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru.

Optometreg Cymru (*Optometry Wales*)

Optometreg Cymru yw'r sefydliad ambarél proffesiynol ar gyfer yr holl optometryddion cymunedol, optegwyr ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru. Y corff hwn sy'n cynrychioli'r proffesiwn wrth lobi a negodi gyda Llywodraeth Cymru, ymateb i ymgynghoriadau a sicrhau cynrychiolaeth i'r proffesiwn ar bob lefel yng Nghymru.

Gwirió Ôl-dalu (GOD) (*Post-payment Verification (PPV)*)

Proses archwilio ariannol ar gyfer hawliadau o fewn y GIG. Gwneir y gwiriadau ôl-dalu gan y Partneriaeth Cydwasaethau (PCGC) yn unol â phrotocol a gytunwyd.

Mae hawl gan PCGC i archwilio cofnodion sy'n ymwneud â chleifion GIG, gan gynnwys cofnodion cymysg, GIG a phreifat, sy'n ymwneud â chlaf.

Gwasanaeth Atgyfeirio Aciwt Gofal Llygaid Sylfaenol (GAAGLIS) (*Primary Eyecare Acute Referral Service (PEARS)*)

Archwiliad llygaid ar gyfer cleifion gyda phroblem llygad a oedd yn galw am sylw ar frys, a oedd ar gael yn ddi-dâl i'r claf gan optometrydd cymunedol. Roedd y gwasanaeth hwn ar gael yn ystod 2003 - 2012, ond mae bellach wedi ei ddisodli gan AILIC.

Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (GGLIC) (*Wales Eye Care Service (WECS)*)

Gwasanaeth gofal llygaid newydd a gyflwynwyd yn 2012, sydd wedi ei strwythuro fel y gall optometryddion reoli achosion cleifion yn briodol ac yn effeithiol yn y gymuned. Mae'r strwythur o dri band yn cynnwys Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru (AILIC), archwiliadau ar gyfer ymchwilio ymhellach, a gwasanaeth dilynol. Mae'r gwasanaeth ar gael yn ddi-dâl i gleifion yng Nghymru sy'n gymwys am GGLIC o dan un o'r categorïau ac yn ymweld ag optometrydd achrededig.

Canolfan Addysg Optometreg Ôl-raddedig Cymru (CAOOC) (*Wales Optometry Postgraduate Education Centre (WOPEC)*)

CAOOC yw'r ganolfan addysg ôl-raddedig optometreg gyntaf yn y byd, sydd wedi ymgysgu i hyrwyddo rhagoriaeth mewn addysg gofal llygaid, ar sail ansawdd ac annibyniaeth. Yn ogystal â darparu cyrsiau ôl-raddedig ardystiedig, mae CAOOC yn darparu cyrsiau byr ar gyfer optometryddion a phroffesiynolion gofal llygaid ac yn helpu i ddarparu hyfforddiant ac achredïadau ar gyfer GGLIC. Lleolir y Ganolfan yn Ysgol Optometreg Prifysgol Caerdydd.

Welsh Eye Health Examination Wales (WEHEW)

Nod WEHEW oedd canfod y cleifion hynny a oedd mewn mwy o berygl na'i gilydd o ddioddef clefyd y llygad, a'r cleifion hynny a fyddai mewn anhawster arbennig pe baent yn colli eu golwg. Roedd hawl gan gleifion yng Nghymru, os oeddent yn bodloni criteria penodedig, i gael archwiliad llygad WEHEW gan optometrydd achrededig yn ddi-dâl ar yr adeg y defnyddid y gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth hwn ar gael yn ystod 2003 - 2012, ond mae bellach wedi ei ddisodli gan AILIC..

Llywodraeth Cymru (LIC)/ (*Welsh Government (WG)*)

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae ganddi bwerau deddfu mewn meysydd allweddol megis iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Pwyllgor Optometrig Cymru (POC) (*Welsh Optometric Committee (WOC)*)

Pwyllgor Optometrig Cymru (POC) yw'r pwyllgor cynghori statudol sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar bob agwedd ar faterion optometreg ac optometryddion yng Nghymru. Mae'n cynnwys Aelodau o'r Pwyllgorau Optometrig Rhanbarthol, Ysgol Optometreg Prifysgol Caerdydd a'r Gwasanaeth Llygaid Ysbytai yng Nghymru. Mae ynddo sylwedyddion o LIC a CAOOC a sylwedydd cilyddol o'r Grŵp Cynghori Arbenigol ar Offthalmoleg (OSAG, sy'n rhan o Bwyllgor Meddygol Cymru). Yn achlysurol bydd yn comisiynu is-grwpiau at y diben o ddatblygu meysydd dylanwad penodol.

